Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

13/03/26

Annwyl Rieni,

**Blwyddyn 2-** Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 2 am berfformio eitemau cerddorol mor dda o flaen Cymdeithas Gymraeg Rhuthun yn ystod yr wythnos. Buodd y plant yn perfformio yn Ganolfan Neylor-Leyland o flaen aelodau'r gymdeithas. Braf oedd cael y cyfle iddynt berfformio'n lleol ac o fewn ein milltir sgwâr.
Bydd Cymdeithas Gymraeg Rhuthun yn dathlu canmlwyddiant yn 2027- gwych o beth fyddai gweld aelodaeth y Gymdeithas yn parhau i ffynnu. Cofiwch gefnogi gweithgareddau'r Gymdeithas- byddwn yn rhannu manylion pellach ar sut i ymaelodi a chefnogi'r mudiad pwysig yma.

**Llwyddiant Tîm Rygbi**- Buodd gem rygbi fawr wythnos yma rhwng Ysgol Pen Barras ac Ysgol Glanrafon, Wyddgrug i benderfynu pwy fydd yn cynrychioli Gogledd Ddwyrain Cymru mewn cystadleuaeth ranbarthol Cymru. (Hyn wedi i Ysgol Pen Barras ac Ysgol Glanrafon ennill cystadlaethau rygbi'r Urdd Sirol yn ddiweddar. Bu i ni ennill y gêm o 3 cais i 2. O ganlyniad, byddwn yn mynd ymlaen dydd Iau nesaf i gystadlu yn y gystadleuaeth ranbarthol genedlaethol i lawr yn Llanymddyfri. Pob dymuniad da i'r bechgyn.

**Sioe Mewn Cymeriad-** Cafodd plant Blwyddyn 1 a 2 modd i fyw prynhawn ddoe wrth fwynhau perfformiad 'Syr Ifan ab Owen Edwards' prynhawn ddoe yn neuadd yr ysgol. Sioe oedd yn atgyfnerthu pwysigrwydd o ymfalchïo a dathlu ein Cymreictod.

**Bingo Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**- Cofiwch am y Noson Bingo sydd wedi ei drefnu ar gyfer Nos Wener, Mawrth 27ain yn Ganolfan Llanfwrog. Pris tocyn mynediad yw £5. Cofiwch brynu eich tocyn mynediad yn fuan oherwydd maent yn gwerthu allan yn fuan bob blwyddyn.
Diolch hefyd am holl gyfraniadau wyau Pasg fel gwobrau ar gyfer y raffl! Mai fel ffatri Cadburys yn yr ysgol heddiw! Diolch yn fawr am eich cefnogaeth!

**Eisteddfod Sir yr Urdd**- Mae manylion cystadlu ar gyfer yr Eisteddfod Sir wedi ein cyrraedd heddiw. Byddwn yn rhannu'n electroneg yr amserlen cystadlu heddiw efo rieni. Cynhelir yr Eisteddfod Sir wrth gwrs, unwaith eto eleni ym Mhafiliwn Eisteddfod Llangollen ar ddydd Sadwrn, Mawrth 21ain, 2026.

**Nosweithiau Rieni- Mawrth 23ain a 24ain-** Diolch i'r rhai hynny sydd eisoes wedi cadarnhau apwyntiadau ar gyfer Nosweithiau Rieni. Cofiwch gysylltu â staff y swyddfa i wneud apwyntiadau. Mae'r apwyntiadau yn prysur lenwi.

Mwynhewch y penwythnos- a phob lwc i'n cyn-ddisgyblion yn Ysgol Brynhyfryd sy'n cystadlu yfory yn yr Eisteddfod Uwchradd yfory!

Yn gywir,
**Dyfan Phillips**
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*3/03/26*

*Dear Parents,*

***Year 2 –*** *Congratulations to the Year 2 children for performing their musical items so well in front of the Ruthin Welsh Society earlier in the week. The children performed at the Neylor-Leyland Centre in front of society members. It was lovely to have the opportunity for them to perform locally and within our own community here in Ruthin.*
*The Ruthin Welsh Society will be celebrating its centenary in 2027 – it would be wonderful to see the Society's membership continue to thrive. Please remember to support the Society's activities – we will share further details on how to join and support this important organisation.*

***Rugby Team Success –*** *There was a important rugby match this week between Ysgol Pen Barras and Ysgol Glanrafon, Mold, to decide who will represent North East Wales in the regional Wales competition. (This follows both schools winning their recent Urdd County rugby competitions.) Ysgol Pen Barras won the game by 3 tries to 2. As a result, we will go on next Thursday to compete in the national regional competition down in Llandovery. Best wishes to the boys.*

***Theatr Performance*** *– Year 1 and 2 children had a wonderful afternoon yesterday enjoying the performance 'Syr Ifan ab Owen Edwards' in the school hall. The show reinforced the importance of taking pride in and celebrating our Welsh identity.*

***PTA Bingo –*** *A reminder about the Bingo Night arranged for Friday, March 27th at Llanfwrog Centre. Entry tickets cost £5. Please remember to buy your tickets soon as they sell out quickly every year.*
*Thank you also for all the Easter egg donations as raffle prizes! The school feels like a Cadbury's factory today! Thank you very much for your support.*

***Urdd County Eisteddfod –*** *We have received the competition details for the County Eisteddfod today and will share the competition timetable electronically with parents. The County Eisteddfod will once again be held this year at the Llangollen Eisteddfod Pavilion on Saturday, March 21st, 2026.*

***Parents' Evenings – March 23rd and 24th –*** *Thank you to those who have already confirmed appointments for Parents' Evenings. Please remember to contact the office staff to make an appointment. Slots are filling up quickly.*

*Enjoy the weekend – and best of luck to our former pupils at Ysgol Brynhyfryd who are competing tomorrow in the Urdd Secondary Schools Regional Eisteddfod.*

*Kind regards,*
***Dyfan Phillips***
*HEAD TEACHER*
*Ysgol Pen Barras*